Gwasanaeth Carchardai
a Phrawf EF

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal
HMPPS Cymru a CAS
Tŷ Churchill
Caerdydd
Cymru
CF10 4HH

Martin Jones
Prif Arolygydd Prawf EF
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre,
1 Bridge Street West,
Manchester
M3 3FX

10 Hydref 2025

Annwyl Martin,

Adroddiadau Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi ar arolygu Uned Cyflawni Prawf Cwm Taf Morgannwg (yr Uned Gyflawni), Rhanbarth Cymru - Awst 2025

Diolch i chi am eich adroddiadau arolygu i Uned Gyflawni Cwm Taf Morgannwg , lle gwnaethoch gyfanswm o bum argymhelliad.

O ran yr argymhellion, gallaf gadarnhau fod pob un wedi'i ystyried yn ofalus a chyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol bydd Penaethiaid yr Uned Gyflawni'n sicrhau y byddir yn cymryd camau i roi sylw iddynt fel bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gweithredu'r fframwaith goruchwylio rheolaeth, gan sicrhau y byddir yn goruchwylio'n ddigon aml ac i safon ddigonol, gydag uwch-swyddogion yn monitro'r effaith trwy arsylwi.
- Gwreiddio Archwiliadau Cadw Pobl yn Ddiogel fel dull sicrwydd Haen 1 i gryfhau arfer mewn asesu, cynllunio ac adolygu risg o niwed.
- Lansio pecyn 'Chwilfrydedd Proffesiynol mewn Ymarfer' i ychwanegu at sgiliau a hyder ymarferwyr wrth herio sgyrsiau a dadansoddi risg.
- Trefniadau amlasiantaethol wedi'u cryfhau gyda'r heddlu a'r gwasanaethau plant, yn cynnwys prosesau rhannu gwybodaeth diwygiedig a llywodraethiant Lefel 1 trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA) gyda metrigau ansawdd newydd

Er yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud eto yn yr Uned Gyflawni, rwyf wedi fy nghalonogi yr adroddwyd ar ganlyniadau cadarnhaol a nodaf yr isod.

- Cydnabuwyd y tîm arweinyddiaeth fel un gweladwy, tosturiol ac un sy'n canolbwyntio'n strategol, gydag amgyffrediad cryf o bwysau gweithredol ac anghenion cymunedol.
- Nododd arolygwyr ddatblygiad cynllun gwella cadarn o safon, gwreiddio dull gweithredu ffactorau dynol ac ymwneud yn rhagweithiol â phartneriaid a rhanddeiliaid.

- Dywedodd staff ar draws pob graddfa eu bod yn teimlo y cânt gefnogaeth, clust ac y cânt eu gwerthfawrogi, a'u bod yn gwbl optimistig ynghylch y ffordd ymlaen.
- Rhoddwyd sgôr 'Da' i arweinyddiaeth, gan adlewyrchu hyder yng nghanolbwynt strategol a chynnydd cynnar y tîm yn erbyn safonau.

Rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau cynnydd yn erbyn argymhellion yr Arolygiaeth Prawf a gallaf eich sicrhau, trwy fy swyddogaethau sicrwydd gweithredol a chefnogaeth Grŵp Perfformiad, Sicrwydd a Risg yr HMPPS y byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn agos, yn unol â'ch canfyddiadau.

Yn gywir

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal HMPPS Cymru

CC: Swyddfa Breifat
Kim Thornden-Edwards, Prif Swyddog Prawf yr HMPPS
Nicola Davies, Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Cymru